# HYBU CIG CYMRU ▪ MEAT PROMOTION WALES

Blwch SP 176
Aberystwyth
SY23 2YA

Ffôn: 01970 625 050
Ffacs: 01970 615 148
Ebost: info@hccmpw.org.uk
www.hccmpw.org.uk

Ein Cyf: GH/SAJ/KS/Cons.

4 Tachwedd 2011

Ms Naomi Stocks
Clerc Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Polisi Amaethyddol Cyffredin
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

E-bost: E&S.comm@wales.gov.uk

Annwyl Ms Stocks

**Ynglŷn ag: Ymchwiliad i'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin**

Diolch i chi am y cyfle i ymateb i'r ymchwiliad uchod i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC).

Hybu Cig Cymru (HCC) yw'r corff sy'n gyfrifol, dan arweiniad y diwydiant, am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch Cymru. Ar ran holl ffermwyr Cymru a chyfranogwyr allweddol eraill o'r diwydiant, mae cynrychiolwyr rhanddeiliaid HCC yn gweithredu cynllun strategol i ddatblygu marchnadoedd proffidiol a chynaliadwy i gig coch Cymru er budd pawb yn y gadwyn gyflenwi.

Amcangyfrifir bod cyfanswm gwerth y sector cig coch i economi Cymru - gan ystyried y sectorau amaethyddol, prosesu a manwerth - yn fwy na £1 biliwn y flwyddyn. Hefyd, mae ffermwyr da byw Cymru yn tanategu'r economi ymwelwyr, trwy reoli tirwedd hardd a gwerthfawr y wlad; mae twristiaeth yn cynnal 172,000 o swyddi ac yn cyfrannu £6.2 biliwn mewn Cynnyrch Domestig Gros.

Mae HCC o'r farn y dylai'r PAC fod yn syml i'w weithredu a'i roi ar waith, yn canolbwyntio ar y farchnad, yn darparu anogaeth i gynyddu cystadleugarwch a chynhyrchedd trwy ddulliau cynaliadwy; ac y dylai weithio tuag at ymagwedd gyson ledled yr Undeb Ewropeaidd.

Ymddengys fod yr argymhellion drafft a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd (CE) ar 12 Hydref 2011 yn dynodi y bydd y model talu hanesyddol, o 2014, yn cael ei ddisodli'n raddol gan system o daliadau cyfradd safonol yn ôl ardal pan fydd ffermwyr yn debygol o dderbyn yr un cyfraddau tâl yr hectar. O brofiad ffermwyr yn Lloegr, waeth beth fydd y diffiniad o'r ardaloedd neu ranbarthau hyn, mae'n debygol y bydd elfen o ailddosbarthu cyllid yn anochel ac y bydd rhai ffermwyr yn elwa ac eraill yn colli.. Mae HCC o'r farn fod angen ymarferion modelu economaidd cyn penderfynu ynglŷn â'r systemau cyfradd safonol a fydd yn amharu cyn lleied â phosibl ar y diwydiant.

Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr – Rhif Cwmni 4635113
Swyddfa Gofrestredig: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, SY23 3FF

Yn ei ymateb i'r CE ym mis Ionawr 2011 ynglŷn ag Asesiad Effaith diwygio'r PAC tuag at 2020, mynegodd HCC y farn y dylai unrhyw ddiwygio polisi fod â chynhyrchu a diogelwch bwyd yn brif ffactor sbarduno. Yn flaenorol, mae HCC wedi croesawu'r ymrwymiad gan Weinidogion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n cydnabod pwysigrwydd y PAC i bob gwlad ac sy'n ffafrio cyfran deg a chymesur o'r gyllideb, hyblygrwydd i ymateb i ofynion lleol penodol, a llai o fiwrocratiaeth. Hefyd, mae HCC yn cymeradwyo ymrwymiadau blaenorol Gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig i bolisi dau biler clir ac amlwg ar gyfer y PAC, gyda Philer 1 yn canolbwyntio'n glir ar fesurau uniongyrchol i gynorthwyo ffermwyr i gynhyrchu bwyd – a Philer 2 yn cefnogi mesurau amgylcheddol.

Mae HCC yn deall nad yw'n ymddangos fod yr argymhellion drafft a gyhoeddwyd gan y CE ar 12 Hydref 2011 wedi ymrwymo i bolisi dau biler clir ac amlwg ar gyfer y PAC, gyda Philer 1 yn canolbwyntio'n glir ar fesurau uniongyrchol i gynorthwyo ffermwyr i gynhyrchu bwyd – a Philer 2011 yn cefnogi mesurau amgylcheddol.

Mae HCC o'r farn na ddylid diystyru pwysigrwydd materion amgylcheddol, cydlyniad tiriogaethol, newid yn yr hinsawdd, ynni a materion byd-eang; yn hytrach, gyda'r boblogaeth yn yr UE ac yn fyd eang yn cynyddu drwy'r amser, rhaid i'r ymdrechion i sicrhau digon o fwyd o safon uchel fod yn flaenoriaeth. Mae daearyddiaeth a hinsawdd Cymru yn arbennig o addas ar gyfer cynhyrchu cig coch ac o'r herwydd mae HCC yn annog ffermwyr Cymru i gynhyrchu da byw yn y modd mwyaf cynaliadwy posibl ynghyd â sicrhau eu bod yn cynnal y safonau uchaf o ran iechyd a lles. Mae HCC yn credu y dylai unrhyw ddiwygio i'r PAC gynnwys y gwerthoedd hyn. Parthed y diwygiadau arfaethedig, mae angen sicrhau taliadau cymorth i geisio mynd i'r afael â'r dirywiad yn nifer y da byw a gwneud yn siŵr bod elfennau wedi'u modiwleiddio o'r PAC o bob diwydiant yn cael eu defnyddio i ddatblygu'r diwydiant hwnnw a bod o fudd iddo. Er gwaethaf y cynnydd diweddar ym mhrisiau da byw ar y farchnad, mae cynhyrchwyr cig coch yng Nghymru, dros y tymor hir, wedi gwneud llai o lawer o elw ac mae hyn wedi gadael llawer fferm yn ymdrechu i fod yn hyfyw yn ariannol. Felly, dylai unrhyw newidiadau i'r Taliad Sengl a'r PAC gael eu cyflwyno dros gyfnod o sawl blwyddyn er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar y diwydiant, hwyluso cynllunio busnes hirdymor hanfodol, a'i gwneud yn haws i wynebu'r newid a thrwy hynny leihau'r effaith cyffredinol ar broffidioldeb a hyfywedd y diwydiant cig coch yng Nghymru.

Felly, mae HCC yn siomedig ei bod yn ymddangos nad yw'r argymhellion drafft a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 12 Hydref 2011 yn cydnabod pwysigrwydd cael cyfnod trawsnewid hir ac ystyrlon er mwyn helpu cynhyrchwyr i addasu a chymhwyso eu busnesau i'r newidiadau arfaethedig.

Mae menter Llywodraeth Cymru, 'Hwyluso'r Drefn` yn anelu at ddarparu fframwaith rheoli cyson a phriodol. Deellir bod Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru wrthi'n trawsnewid gorfodaeth reoleiddiol er mwyn galluogi busnesau i dyfu.

Felly, mae HCC yn pryderu am ei bod yn ymddangos nad yw'r argymhellion drafft a gyhoeddwyd yn anelu at PAC symlach. I'r gwrthwyneb, ymddengys y gallai'r argymhellion a gyflwynwyd arwain at PAC mwy cymhleth o lawer ac a allai fod yn anodd ei weithredu'n effeithiol.

Er bod cynhyrchwyr cig coch yng Nghymru wedi ymaddasu'n dda i ddiwygiadau'r PAC yn y gorffennol - gan geisio arddangos eu safonau uchel o ran diogelu'r amgylchedd, diogelwch bwyd ac iechyd a lles anifeiliaid - mae'r dirywiad yn niferoedd y da byw yng Nghymru (ac ar draws yr UE), yn rhannol fel canlyniad i ddiddymu dolen rhwng cymorthdaliadau a chynhyrchu, yn fater o bryder cynyddol. Oddi ar 2004 mae'r ddiadell mamogiaid magu yng Nghymru wedi crebachu 17 y cant (i 4.1 miliwn o anifeiliaid) ac mae'r fuches gwartheg magu cig eidion – gwartheg cig eidion dwy flwydd oed a throsodd - yng Nghymru wedi crebachu 8 y cant (i 242,000 o anifeiliaid).[1]

Mae nifer a maint cyfartalog diadelloedd a buchesi yng Nghymru wedi gostwng, hefyd. Ym mis Mehefin 2004 roedd gan Gymru 15,483 o ddaliadau defaid ac ŵyn, ac roedd yna 629 o anifeiliaid ar gyfartaledd ym mhob diadell. Erbyn mis Mehefin 2010, roedd y niferoedd hyn wedi gostwng i 14,398 o ddaliadau ac roedd 573 o anifeiliaid ar gyfartaledd ym mhob diadell.

Mae maint cyfartalog y fuches gig eidion (anifeiliaid benyw dwy flwydd oed neu drosodd) yng Nghymru wedi para'n gymharol gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda 24 a 25 o anifeiliaid, yn ôl eu trefn, ar gyfartaledd ym mhob buches ym Mehefin 2004 a Mehefin 2010. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y daliadau buchod cig eidion yn ystod yr un cyfnod gyda 9,542 o ddaliadau wedi'u cofrestru yn 2010, mewn cymhariaeth â 10,816 o ddaliadau yn 2004. Mae hyn yn awgrymu bod rhai ffermwyr cig eidion yng Nghymru yn y cyfnod dan sylw wedi penderfynu gadael y sector yn hytrach na lleihau nifer yr anifeiliaid yn eu buchesi.

Am fod y diwydiant cig coch yng Nghymru'n ddiwydiant cynhyrchu a phrosesu cynradd pwysig o ran yr economi gwledig ac yn chwarae rhan allweddol wrth reoli'r dirwedd yn gynaliadwy, mae gan y gostyngiadau hyn yn niferoedd y da byw oblygiadau pellgyrhaeddol. Yn 2009 cyfrannodd cynnyrch cig coch Cymru 39% o holl werth blynyddol y cynnyrch amaethyddol yng Nghymru, sef £429 miliwn. Roedd hyn mewn cymhariaeth â 48 y cant a £491 miliwn yn 2004.[2]

Gor-symleiddio hefyd yw credu y gallai llai o dda byw yng Nghymru gyfrannu'n fuddiol mewn unrhyw ffordd at leihau'r effeithiau ar newid yn yr hinsawdd. Bydd y galw cynyddol am gynhyrchion cig coch, yn enwedig o wledydd sy'n datblygu, yn cael ei ddiwallu gan ddulliau cynhyrchu llai cynaliadwy o bosibl, a byddai hynny'n cael effaith andwyol dros ben ar economi Cymru. Cyhoeddodd HCC Fap Ffyrdd Cig Coch Cymru yn gynharach yn 2011 i geisio nodi sut gall ffermwyr da byw, proseswyr a mân-werthwyr yng Nghymru gyflawni nodau newydd a chytunedig wrth lynu wrth hanfodion model busnes o wella proffidioldeb a chynaladwyedd. Mae'r map ffyrdd yn ystyried heriau megis agwedd y diwydiant at nwyon tŷ gwydr, ôl-troed carbon, ansawdd dŵr a'r defnydd ohono, bioamrywiaeth, rheoli cefn gwlad a diogelu carbon a'i ddal a'i storio, a'r hyn sy'n cael ei ddatrys. Mae'r map ffyrdd yn rhybuddio y gallai sbardunau eraill effeithio ar bolisïau amgylcheddol, gan gynnwys diwygio'r PAC.

Dylid cydnabod pwysigrwydd Rheoliad Datblygu Gwledig y CE a'i weithrediad. Mae ar ffermwyr angen cymorth i ymateb i heriau a chyfleoedd allweddol, gan gynnwys lliniaru

[1] **Ffynhonnell:** Llywodraeth Cynulliad Cymru. Arolwg Amaethyddiaeth Gorffennaf 2010.

[2] **Ffynhonnell:** Hybu Cig Cymru (HCC). Y Llyfr Cig Bach: Crynodeb o Ystadegau'r Diwydiant Cig a Da Byw yng Nghymru

effaith y diwydiant ar newid yn yr hinsawdd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013 wedi galluogi ffermwyr i ymaddasu i newid, ac i fod yn fwy cynaliadwy a chystadleuol. Trwy'r Cynllun hwn, mae HCC wedi gallu darparu gweithgareddau trosglwyddo technoleg trwy gyfrwng digwyddiadau ar ffermydd, cyhoeddiadau a gwybodaeth ar y we. Yn ogystal, mae yna brosiectau i arddangos technolegau newydd ac i gynorthwyo ffermwyr i roi strategaethau newydd ar waith. Mae'n hollbwysig, wrth weithredu unrhyw ddiwygiadau i'r PAC, fod aelod-wladwriaethau yn dal i fod â'r fframwaith a'r cyllid sydd ar gael i helpu'r diwydiant amaethyddol ac ardaloedd gwledig i addasu eu busnesau ar gyfer newid er gwell. Ym marn HCC, dylai cymhellion sy'n arwain at leihau effaith ffermio ar yr amgylchedd trwy wella cynaliadwyedd gael eu cyflawni nid wrth osod amodau ychwanegol ar gymorth uniongyrchol ond trwy gyfrwng Rhaglenni Datblygu Gwledig wedi'u targedu.

Felly, mae'n bwysig bod yr argymhellion drafft a gyhoeddwyd gan y CE ar 12 Hydref 2011 yn ystyried y systemau ffermio ym mhob un o'r aelod-wladwriaethau ac yn rhoi cyfle i'r budd-ddeiliaid yn yr aelod-wladwriaethau hyn newid a dylanwadu ar ddatblygiad pellach o'r argymhellion terfynol. Mae angen i'r diwydiant a Llywodraeth Cymru gydweithio er mwyn symleiddio'r PAC a diogelu'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru a bywoliaeth y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant hwnnw. I wneud hyn, mae angen ymaddasu'r PAC presennol dros gyfnod fel bod rhanbarthau ac aelod-wladwriaethau yn cael cyfle i ddehongli'r PAC mewn ffordd hyblyg ac fel bod y diwydiant cig coch yn cael cyfle i esblygu ymhellach a thrawsnewid er budd pawb sy'n rhan ohono. Awgrymir y dylai polisi ar lefel yr UE geisio cynorthwyo ac annog datblygu busnesau cig coch proffidiol, effeithlon, cynaliadwy ac arloesol.

I grynhoi, ym marn HCC, y pwyntiau allweddol yw:

- Nid yn unig mae ffermio da byw yn addas i hinsawdd a daearyddiaeth Cymru, ond dyma'r unig weithgaredd economaidd mewn ardaloedd gwledig a all gyfrannu at gynnal y dirwedd ddeniadol, a chynnal twristiaeth o'r herwydd.
- Mae diogelu bwyd yn dal i fod yn flaenoriaeth amlwg wrth i boblogaeth y byd gynyddu'n gyflym
- Dros gyfnod o sawl blwyddyn mae prisiau marchnad cyfnewidiol a chostau mewnbwn cynyddol wedi gosod pwysau difrifol ar broffidioldeb
- Dylai unrhyw drawsnewid i daliadau cyfradd safonol ar sail ardal gael ei gyflwyno dros nifer o flynyddoedd fel bod ffermwyr yn cael cyfle i ymaddasu
- Dylid cael gwahaniaeth clir rhwng Mesurau Piler 1 a Philer 2
- Mae amaethyddiaeth gynaliadwy yn hyrwyddo gwell sefydlogrwydd yn yr economi gwledig.

Gobeithiwn y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol i chi a byddwn yn gwerthfawrogi cael gwybodaeth am unrhyw ddatblygiadau pellach yn hyn o beth. Byddwch cystal â nodi hefyd bod HCC yn barod i gyfranogi mewn unrhyw sesiynau tystiolaeth lafar.

Yr eiddoch yn gywir

**Gwyn Howells**
**Prif Weithredwr**